COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR ARCHWILIO A GYNHALIWYD YN YSTAFELLOEDD PWYLLGOR 2/3 - SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR CF31 4WB DYDD IAU, 30 IONAWR 2020, AM 14:00

Presennol

Y Cynghorydd LM Walters – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| JE Lewis | MJ Kearn | RM Granville | A Williams |
| AJ Williams | PA Davies | A Hussain | |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

P Davies a/ac TH Beedle

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Mark Thomas | Pennaeth Gwasanaeth Archwilio Rhanbarthol |
| Andrew Rees | Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd |
| Gill Lewis | Pennaeth Cyllid a Swyddog 151 Dros Dro |
| Michael Pitman | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd – Pwyllgorau |
| Joan Davies | Rheolwr Cleient Archwilio |

Aelod Lleyg:

Mrs J Williams

173. DATGANIADAU O FUDDIANT

Dim

174. CYMERADWYO COFNODION

PENDERFYNWYD: Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod ar 14/11/2019 fel cofnod gwir a chywir yn amodol ar ychwanegu ymddiheuriadau gan y Cyngh. Cheryl Green a'r cynrychiolydd o Swyddfa Archwilio Cymru.

175. COFNOD GWEITHREDU'R PWYLLGOR ARCHWILIO

Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd adroddiad a oedd yn rhoi diweddariad i'r Aelodau am Adroddiad Gweithredu'r Pwyllgor Archwilio.

Hysbysodd fod yr Adroddiad Gweithredu wedi'i restru yn Atodiad A o'r adroddiad a gofynnodd i'r Aelodau a oedd ganddynt unrhyw gwestiynau neu sylwadau yn ei gylch.

Gofynnodd y Cadeirydd am newid lliw'r eitemau yr ymdriniwyd â hwy i lwyd ar y dudalen fel bod y pwyllgor yn gallu cadw gwell golwg ar gamau gweithredu a gwblhawyd.

Soniodd Aelod fod ganddi fater diogelu i hysbysu yn ei gylch tra'r oedd ar wibdaith ysgol. Dywedodd nad oedd gweithdrefn glir ar gyfer hysbysu a gofynnodd a ellid gwahodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant i'r cyfarfod er mwyn i'r Aelodau ofyn cwestiynau. Dywedodd y Pennaeth Cyllid Interim y gallai fod o fudd pe bai'r Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Chymorth i Deuluoedd yn bresennol hefyd.

PENDERFYNWYD: Y dylai'r Pwyllgor:

1. Nodi cynnwys y Cofnod Gweithredu a;
2. Gofyn am wahodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Chymorth i Deuluoedd a Chyfarwyddwr Corfforaethol y Gwasanaethau Cymdeithasol ill dau i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Archwilio.

176. SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU – TROSOLWG A CHRAFFU – ADDAS I'R DYFODOL

Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd adroddiad a oedd yn rhoi diweddariad i'r Aelodau am yr argymhellion a wnaed yn adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru a gyflwynwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor Archwilio ar 6 Rhagfyr 2018 'Trosolwg a Chraffu – Addas i'r Dyfodol?' er mwyn iddynt ei nodi.

Eglurodd fod Swyddfa Archwilio Cymru wedi gwneud darn o waith fel rhan o adroddiad cenedlaethol ac wedi archwilio pa mor 'addas i'r dyfodol' oedd swyddogaethau craffu yn yr Awdurdod. Daeth yr adolygiad i'r casgliad bod Swyddogaeth Trosolwg a Chraffu'r Cyngor yn cael ei rhedeg yn dda, ond bod angen iddi addasu i ymateb i heriau'r dyfodol.

Fe wnaeth y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd amlinellu'r cynnydd a oedd wedi cael ei wneud hyd yma mewn perthynas â chynigion Swyddfa Archwilio Cymru. Roedd y pum cynnig ar gyfer gwella wedi'u rhestru yn adran 4 o'r adroddiad.

Soniodd un o'r Aelodau fod yr adroddiad yn nodi bod y Tîm Craffu yma wedi'i staffio'n llawn. Gofynnodd a oeddem yn hapus gyda phrofiad y staff wrth edrych tua'r dyfodol.

Dywedodd y Cadeirydd fod un o aelodau newydd y Tîm Craffu'n Swyddog Craffu profiadol iawn a oedd nid yn unig yn meddu ar flynyddoedd o brofiad, ond a oedd yn arfer gweithio yma yn CBS Pen-y-bont ar Ogwr hefyd, ac a oedd felly'n gyfarwydd â'r prosesau a'r gweithdrefnau.

Dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd fod y tri Swyddog Craffu blaenorol i gyd yn cael eu cyflogi'n rhan-amser, gyda phob un ohonynt yn cael 1 diwrnod o wyliau yr wythnos; fodd bynnag, roedd y tri Swyddog Craffu a gyflogir yn awr i gyd yn llawn-amser. Ychwanegodd fod un o'r newydd-ddyfodiaid wedi gweithio mewn rhan arall o'r Awdurdod mewn rôl a oedd yn cynnwys ymchwil, yr ystyrid ei fod yn sgil manteisiol i'w gynnig i'r rôl Graffu.

PENDERFYNWYD: Fod y Pwyllgor yn nodi'r adroddiad.

177. ASESIAD RISG CORFFORAETHOL, POLISI RHEOLI RISG CORFFORAETHOL A'R WEITHDREFN AR GYFER HYSBYSU YNGHYLCH DIGWYDDIADAU GWIRIONEDDOL A DIGWYDDIADAU TRWCH BLEWYN

Cyflwynodd y Pennaeth Cyllid Interim adroddiad a oedd yn rhoi gwybod i'r Pwyllgor am ganlyniad Asesiad Risg Corfforaethol 2020-21 yn Atodiad A, yn hysbysu'r Pwyllgor ynghylch y newidiadau i Bolisi Rheoli Risg y Cyngor yn Atodiad B ac yn rhoi diweddariad am Ddigwyddiadau Gwirioneddol a Digwyddiadau Trwch Blewyn yr hysbyswyd yn eu cylch yn Atodiad C.

Hysbysodd fod Atodiad A yn yr adroddiad yn cynnwys dyddiadau anghywir, a rhoddodd gopi wedi'i argraffu i'r Pwyllgor o'r fersiwn gyfoes o Asesiad Risg Corfforaethol 2020-21.

Holodd un o'r Aelodau ynglŷn â'r risg a oedd yn gysylltiedig â chadw a recriwtio staff a beth oedd y prif broblemau. Dywedodd y Pennaeth Cyllid Interim fod a wnelo'n aml â chyflog ac ansawdd y farchnad. Dywedodd fod y sector preifat o'i gymharu â

Llywodraeth Leol yn aml yn cynnig cyflog uwch a mwy o amrywiaeth o swyddi. Ychwanegodd fod nifer o gymhlethdodau pan fo swydd yn cael ei gwerthuso/newid a dywedodd fod un newid bach yn gallu effeithio ar nifer o agweddau eraill.

Holodd un o'r Aelodau beth oedd y sefyllfa o ran cyflogi gweithwyr cymdeithasol gan bod anhawster gyda hyn ar un adeg. Dywedodd y Pennaeth Cyllid Interim fod y sefyllfa'n well nag yr arferai fod ond bod anhawster o hyd gyda'r prinder, a oedd yn wir am nifer o feysydd gan gynnwys syrfewyr a pheirianwyr. Ychwanegodd fod y cyflog isel am wneud nifer o'r swyddi'n golygu ei bod yn anodd apelio at bobl.

Mynegodd un o'r Aelodau bryderon ynghylch y ffaith bod y cyfrifoldeb yn cael ei ddangos fel un i'r 'Bwrdd Rheoli Corfforaethol' ac awgrymodd fod hyn yn atal perchnogaeth go iawn.

Dywedodd y Pennaeth Cyllid Interim fod y mwyafrif o'r risgiau'n rhai nad ydynt yn berthnasol i un Cyfarwyddwr Corfforaethol yn unig ac felly bod rhannu'r cyfrifoldeb ar draws y Bwrdd Rheoli Corfforaethol i gyd yn golygu bod gan bob un ohonynt gydgyfrifoldeb i sicrhau yr ymdrinnir â'r risgiau. Roedd un o'r Aelodau'n cytuno y byddai dangos un enw'n creu diwylliant o fwrw bai a oedd yn ddiangen.

Cynigiodd y Cadeirydd y dylai'r Pwyllgor ddarllen drwy bob un o'r risgiau a oedd wedi'u rhestru yn Atodiad A i sicrhau bod pawb yn hapus gyda'r camau gweithredu.

Mynegodd un o'r Aelodau bryderon ynghylch Risg 4 a gofynnodd a oedd ysgolion presennol yn cael eu gwella, h.y. a oedd yr arian ar gael i ysgolion presennol yn ogystal ag ysgolion newydd. Cytunodd y Cadeirydd fod angen bwrw golwg ar ysgolion presennol a dod o hyd i ffyrdd o wella'r lle a ddefnyddir yn ogystal â sicrhau bod plant sy'n byw gerllaw'r ysgol yn gallu mynd yno mewn gwirionedd.

Fe wnaeth un o'r Aelodau ailddatgan hyn a dywedodd fod CBS Pen-y-bont ar Ogwr yn ysgwyddo bil mawr am orfod cludo plant am nifer o filltiroedd mewn tacsi oherwydd y diffyg lleoedd i nifer o blant sy'n byw yn nalgylch ysgol ond nad oeddent yn gallu cael lle.

Holodd un o'r Aelodau a oedd y berthynas â'r Byrddau Iechyd cystal ag y gallai fod gan iddi hi ofyn am wybodaeth yn ddiweddar ynghylch y Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE ac wedi cael ei throi i ffwrdd. Dywedodd y Cadeirydd fod hyn yn rhywbeth a drafodwyd mewn cyfarfod Craffu hefyd.

Gofynnodd un o'r Aelodau a ydym yn trafod arfer gorau gydag Awdurdodau Lleol eraill. Dywedodd y Pennaeth Cyllid Interim ein bod yn trafod dulliau arfer gorau a sut y gallwn rannu gwasanaethau gyda'n gilydd, a oedd wedi bod yn digwydd am nifer o flynyddoedd gydag awdurdodau cyfagos.

Gofynnodd yr Aelod Lleyg sut yr oedd y cyflenwyr wedi'u cynnwys yn y cynllun digwyddiadau mawr o ran cydnerthedd ariannol. Dywedodd y Pennaeth Cyllid Interim ei bod yn anodd cynllunio ar gyfer sefyllfa lle byddai cwmni'n dioddef ymosodiad seiber neu'n syrthio i ddwylo'r gweinyddwyr a bod hyn yn rhywbeth y byddai angen i ni ei fonitro.

Dywedodd un o'r Aelodau ei bod yn ofynnol bod gan ysgolion bolisi cymorth cyntaf; fodd bynnag, wrth edrych ar ganllawiau ynghylch polisi cymorth cyntaf ar wefan Llywodraeth Cymru, y cyfarwyddyd oedd i ddilyn canllawiau'r awdurdod lleol. Dywedodd nad oedd gan CBS Pen-y-bont ar Ogwr ei bolisi ei hun a'i fod yn defnyddio canllawiau a gyhoeddwyd gan awdurdodau yn Lloegr. Ychwanegodd nad oedd hyfforddiant digonol wedi cael ei roi i athrawon ar sut i ddefnyddio diffibrilwyr ar y plant mewn Ysgolion Cynradd.

Dywedodd y Cadeirydd fod angen ymchwilio i hyn ac ychwanegodd at y cofnod gweithredu i sicrhau bod CBS Pen-y-bont ar Ogwr yn datblygu polisi cymorth cyntaf sy'n cwmpasu ysgolion ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn ogystal â darparu hyfforddiant addas.

Cwestiynodd un o'r Aelodau a oedd y tebygolrwydd ar gyfer rhai o'r risgiau'n gywir, ac a ddylai lefel y risg fod yn uwch o ganlyniad. Dywedodd y Cadeirydd y byddai perygl yn deillio o wneud hyn gan y byddai rhai risgiau'n codi i lefel rhy uchel lle byddai hysbysu gormodol ynghylch materion.

Dywedodd un o'r Aelodau fod gan y bwrdd iechyd system hysbysu dda ac y gallai fod yn werth bwrw golwg ar eu system hwy. Cytunodd y Cadeirydd y gallai hyn fod yn fuddiol ac y byddai'n werth i Swyddogion geisio'r ffordd orau o ganlyn arni â hyn.

<u>PENDERFYNWYD:</u> Fod Aelodau'r Pwyllgor:

1. Wedi ystyried yr Asesiad Risg Corfforaethol 2020-2021 (Atodiad A) a'r Polisi Rheoli Risg Corfforaethol wedi'i ddiweddaru (Atodiad B)

2. Yn nodi'r Digwyddiadau Gwirioneddol a Digwyddiadau Trwch Blewyn yr hysbyswyd yn eu cylch yn y 12 mis diwethaf (Atodiad C)

178. <u>STRATEGAETH RHEOLI TRYSORLYS 2020-21</u>

Cyflwynodd y Rheolwr Grŵp – Prif Gyfrifydd adroddiad i'r Pwyllgor a oedd yn cynnwys:

- Strategaeth Fenthyca 2020-21
- Strategaeth Fuddsoddi 2020-21
- Dangosyddion Rheoli Trysorlys am y cyfnod o 2020-21 i 2022-23

Eglurodd fod y Cyngor yn cyflawni ei weithgareddau rheoli trysorlys yn unol â Chod Ymarfer y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth ar Reoli Trysorlys yn y Gwasanaethau Cyhoeddus (2017) a deddfwriaeth berthnasol, a bod y Pwyllgor Archwilio wedi cael ei enwebu gan y Cyngor i fod yn gyfrifol am sicrhau y creffir yn effeithiol ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys a'r Dangosyddion Darbodus Rheoli Trysorlys.

Eglurodd fod y Strategaeth Rheoli Trysorlys 2020-21 yn Atodiad A yn cadarnhau bod y Cyngor yn cydymffurfio â Chod CIPFA, sy'n ei gwneud yn ofynnol sefydlu amcanion, polisïau ac arferion, strategaethau a threfniadau adrodd ffurfiol a chynhwysfawr ar gyfer rheoli a rheolaeth effeithiol ar weithgareddau rheoli trysorlys ac mai rheoli effeithiol a rheolaeth effeithiol ar risg oedd prif amcanion y gweithgareddau hyn.

Dywedodd y Rheolwr Grŵp – Prif Gyfrifydd fod Tabl 1 yn yr adroddiad yn nodi sefyllfa'r Cyngor o ran ei ddyledion a buddsoddiadau allanol ar 31 Rhagfyr 2019.

Ychwanegodd fod Tabl 2 yn darparu crynodeb ar ffurf mantolen a rhagolwg o lefel fenthyca ddisgwyliedig y Cyngor, a oedd yn defnyddio amcangyfrifon o wariant cyfalaf a rhagolwg o gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol a'r 3 blynedd nesaf. Nododd y bydd y ffigyrau hyn yn cael eu diweddaru yn unol â'r Rhaglen Gyfalaf ddiwygiedig a gyflwynwyd i'r Cyngor ym mis Chwefror.

Eglurodd y Rheolwr Grŵp – Prif Gyfrifydd fod meincnod Rhwymedigaeth wedi cael ei gyfrifo a oedd yn dangos y lefel fenthyca â'r risg isaf a oedd yn rhagweld y swm isaf o ddyled y gallai'r Cyngor ei ddal pe bai ei adnoddau mewnol yn cael eu defnyddio yn lle benthyca allanol. Roedd hyn yn cael ei ddynodi yn Nhabl 3 yn yr adroddiad.

Ychwanegodd fod adran 4 o'r adroddiad yn nodi'r strategaeth fenthyca a bod Tabl 4 yn darparu'r lefel fenthyca ddisgwyliedig yn y dyfodol.

Hysbysodd fod manylion pellach ynglŷn â'r strategaeth fuddsoddi, partïon i gontract cymeradwy ar gyfer buddsoddi a therfynau, terfynau buddsoddi a therfynau buddsoddi amhenodedig yn cael eu dynodi yn Nhablau 5-9 yn yr adroddiad.

PENDEFYNWYD: Fod y Pwyllgor:

- Wedi rhoi ystyriaeth ddyladwy i'r Strategaeth Rheoli Trysorlys ar gyfer 2020-21 ac;
- Wedi argymell ei bod yn cael ei chyflwyno i'r Cyngor i gael ei chymeradwyo ym mis Chwefror 2020.

179. CYNNYDD GYDA'R CYNLLUN ARCHWILIO SEILIEDIG AR RISG 1 EBRILL 2019 I 31 RHAGFYR 2019

Cyflwynodd y Rheolwr Cleient Archwilio adroddiad a oedd yn rhoi datganiad sefyllfa i'r Aelodau ar y cynnydd sy'n cael ei wneud gyda'r gwaith archwilio a oedd wedi'i gynnwys a'i gymeradwyo yng Nghynllun Seiliedig ar Risg Blynyddol y Tîm Archwilio Mewnol 2019-20.

Hysbysodd fod y cynllun yn darparu ar gyfer cyfanswm o 1,101 o ddiwrnodau archwilio i gwmpasu'r cyfnod rhwng mis Ebrill 2019 a mis Mawrth 2019. Roedd y diwrnodau hyn wedi'u rhannu'n adolygiadau yr ystyrid eu bod yn rhai Blaenoriaeth Un a'r rhai yr ystyrid eu bod yn rhai Blaenoriaeth Dau gyda'r nod o gwblhau'r cynllun cyfan.

Eglurodd fod y cynnydd gwirioneddol yn y cyfnod rhwng chwarter 1af a 3ydd chwarter Cynllun Seiliedig ar Risg 2019/20 wedi'i atodi yn Atodiad A yr adroddiad a oedd yn nodi statws pob adolygiad arfaethedig.

Eglurodd y Rheolwr Cleient Archwilio fod Atodiad A yn dangos, o ran y sefyllfa ar 31 Rhagfyr 2019, fod 28 eitem o waith wedi cael eu cwblhau, a bod 23 adolygiad archwilio o blith y rhain wedi arwain at ddarparu barn. Roedd 3 adolygiad arall wedi cael eu cynnal ac adroddiadau drafft wedi cael eu cyhoeddi a oedd yn disgwyl am adborth gan Adrannau Gwasanaeth.

Eglurodd y Rheolwr Cleient Archwilio fod y 3 adolygiad archwilio sy'n weddill wedi cael barn archwilio a oedd yn rhoi sicrwydd cyfyngedig, hynny yw dim ond sicrwydd cyfyngedig y gellir ei roi ynghylch y system gyfredol o reolaeth fewnol. Roedd y meysydd hyn fel a ganlyn:

- Ysgol Cwm Ogwr
- System Glirio Awtomataidd y Banciau (BACS)
- Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR)

Roedd rhagor o fanylion am y rhain yn adran 4.4 o'r adroddiad.

Holodd un o'r Aelodau, mewn perthynas â'r archwiliad gan SWAP o Gludiant rhwng y Cartref a'r Ysgol a oedd yn mynd rhagddo, a oeddent yn rhoi sylw i'r hebryngwyr yn ogystal â gyrwyr y cerbydau. Dywedodd y Rheolwr Cleient Archwilio nad oedd y gwaith wedi dechrau eto ond fe gadarnhaodd fod hyn yn rhywbeth y byddai'r archwilwyr yn bwrw golwg arno.

Dywedodd un o'r Aelodau fod rhoi'r gorau i ddefnyddio hebryngwyr yn bwnc trafod mewn cyfarfod Trosolwg a Chraffu diweddar fel maes lle gellid gwneud arbedion. Dywedodd nad oedd hi'n cytuno y dylai hwn fod yn bwnc trafod gan bod llawer o blant ar y bysiau a bod gormod i'r gyrrwr ymdrin ag ef ar ei ben ei hun.

PENDERFYNWYD: Y byddai'r Aelodau'n nodi cynnwys yr adroddiad a'r cynnydd a wnaed yn erbyn Cynllun Archwilio Mewnol Seiliedig ar Risg 2019/20.

180. BLAENRAGLEN WAITH WEDI'I DIWEDDARU 2019/20

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaeth Archwilio Rhanbarthol adroddiad a oedd yn rhoi diweddariad i'r Aelodau am y Flaenraglen Waith ar gyfer 2019/20.

Hysbysodd fod nifer o ychwanegiadau newydd i'r Flaenraglen Waith yn ogystal â nifer o adroddiadau a oedd wedi'u gohirio. Roedd y Flaenraglen Waith yn cael ei rhestru yn Atodiad A wrth yr adroddiad. Ychwanegodd fod Adroddiad Hunanasesu'r Pwyllgor Archwilio'n arfer da sy'n galluogi'r Aelodau i hunanasesu a nodi unrhyw fylchau o ran gwybodaeth neu sgiliau y gellid eu gwella gyda hyfforddiant.

PENDERFYNWYD: Y byddai'r Aelodau'n nodi'r Flaenraglen Waith wedi'i diweddaru ar gyfer 2019/20.

181. EITEMAU BRYS

Dim

Daeth y cyfarfod i ben am 16:30